# CYNGOR CYMUNED PISTYLL
# COFNODION CYFARFOD MISOL

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | **Nos Fawrth - 9fed o Fedi 2025** |
| **AMSER** | **Cychwyn am 7y.h** |
| **LLEOLIAD** | **Y Ganolfan, Llithfaen LL53** |
| **CADEIRYDD** | **Olwen Roberts** |

| | |
|---|---|
| 1. | **Croeso**<br>Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Olwen Roberts (Cadeirydd) |
| 2. | **Presennol:**<br>Gethin Jones (GJ), Cynghorydd Jina Gwyrfai (JG), Sianelen Pleming (SP), William Jones (WJ)<br><br>**Ymddiheuriadau gan:**<br>Lois Fychan<br><br>5 aelod ddim wedi datgan ymddiheuriad o flaen llaw at y cyfarfod yma. Nodir fod angen fwy o bresenoldeb yn y cyfarfodydd misol. |
| 3. | **Datgan diddordeb:**<br>Neb |
| 4. | **Cyflwyno a mabwysiadu cofnodion cyfarfod Mehefin 2025.**<br>Cyflwynwyd y cofnodion a chynigodd WJ eu bod yn gywir ac eiliodd GJ. |
| 5. | **Materion yn codi:**<br>A) Cerdyn cydymdeimlo – Cyngor Cymuned yn anfon cerdyn cydymdeimlo at Peter ar ôl colli ei wraig Liz yn ddiweddar, OR i fydd ar cerdyn yno.<br>B) Bocs pethau'r clerc (Gillian) – SP awgrymodd dechrau'r gwaith hwn cyn y cyfarfod nesaf. Pawb sy'n gallu dod erbyn 5.30yh. GP ddim ar gael; WJ yn ceisio dod yn gynharach.<br>C) Meinciau Pistyll a Llithfaen – GJ wedi dod o hyd i wefan ar gyfer y ddau fainc ond ddim yn siŵr am y meintiau. Clerc i wirio prisiau ar gyfer dau fainc maint 180cm / 6tr ar y wefan.<br>D) Wal mynwent Pistyll – Derbyniwyd 3 mynegiant o ddiddordeb ond dim ond 2 ddyfynbris (ail godi'r wal gerrig, llafur a deunyddiau). Clerc i gysylltu gyda'r contractwr ar y pris a ddewiswyd gan y Cyngor Cymuned.<br>E) Tocio glaswellt mynwent Pistyll – GP i wirio a yw'r anfoneb wedi'i hanfon at y clerc, Gillian.<br>F) Enwau newydd i arwyddo sieciau / System bancio newydd (CC Pistyll) – I fynd i'r banc cyn y cyfarfod nesaf i gael y mandad: clerc newydd i dderbyn datganiad banc, ychwanegu dau enw newydd a thynnu enwau John a Liz. (OR)<br>G) Trosglwyddo e-bost i'r clerc newydd – e.e. cynllunio, Un Llais Cymru ac ati (GP).<br>H) Gwybodaeth i'r clerc newydd am gyrsiau – Mae gan y clerc newydd yr hawl i fynychu cyrsiau i gefnogi clerci newydd yn eu swydd, a hefyd i ymuno ag Un Llais Cymru. (JG) |
| 6. | **<u>Gwefan CCPistyll:</u>**<br>GJ - Mae'r tudalen wefan newydd yn fyw ac lluniau arno https://www.ccpistyll.cymru<br>SP - Gwell gadael yr hen dudalen we fel y mae, wrth ei hagor gwelir yn syth fod y wefan yn hen ac heb ei diweddaru ers 2023. https://cyngorcymunedpistyll.weebly.com/Adref |
| 7. | **Diweddariad Cyllidol gan y Cadeirydd**<br>Diweddariad asesdau CCPistyll £18,494<br>+£6,000 gan Cyngor Gwynedd<br>+ £2,700 yn y cyfrif cadw<br>OR - Bob dim wedi ei diweddaru.<br><br>**Diweddariad Asedau:**<br>• 2 Ddifibriliwr – Un yn Llithfaen (Dewi Plas wedi gosod batri newydd ynddo), ac un yn Pistyll (dan ofal GJ).<br>• 2 Gysgodfan Bws – Angen eu glanhau a sicrhau bod y llechi ar y to yn ddiogel.<br>• 2 Mainc – yn Pistyll ac Llithfaen<br>• Maes Parcio – Ben Nant<br>• Biniau Baw Ci – 3 ym Mhistyll ac 1 yn Llithfaen (Cyngor Gwynedd sy'n gyfrifol am yr un yn Nant).<br>• Tir Comin – Hanner y mynydd.<br>• Y Ganolfan – Mae'r Cyngor Cymuned yn dal y les ar yr adeilad, gyda Phwyllgor y Ganolfan yn gyfrifol am y gweithredu o ddydd i ddydd. |
| 8. | **Pwyllgor y Ganolfan**<br>Y Ganolfan – Cyngor Cymuned sydd gan y les yr adeiliad gyda Pwyllgor y Ganolfan yn gweithredu o dydd i dydd. |
| 9. | **Unrhyw Fater Arall / Materion lleol:**<br>Rhyngrwyd<br>GJ – A fyddai'r Cyngor Cymuned yn fodlon talu am rwydweithiau rhyngrwyd yn y Ganolfan? |

| | |
|---|---|
| | SP – Ni welir llawer o alw am rwydweithiau rhyngrwyd yn y Ganolfan gan fod gan Festri'r Capel fynediad Wi-Fi eisoes.<br>JG – Byddai'n fuddiol ar gyfer cyfarfodydd Zoom, yn enwedig pan na all aelodau'r Cyngor Cymuned ddod i'r cyfarfod neu pan fo tywydd garw.<br>WJ – Cytunwyd i edrych ar beth fyddai orau.<br><br>Gordyfiant<br>Capel Isaf i Bont Minafon, Llithfaen – Mae gordyfriant yn tyfu i'r lôn ger Abergafran a Glanaber Bungalow - Clerc i gysylltu ag Adran Priffyrdd (Dwyfor).<br><br>Awelfryn<br>Mae sbwriel a cherbydau ym mhobman, gan ei gwneud hi'n anodd i drigolion gerdded yn ddiogel ar hyd y palmant – Clerc i gysylltu ag Adra, Cyngor Gwynedd ac Heddlu Gogledd Cymru<br><br>Gethin<br>Dymuniadau da i Gethin a fydd yn priodi mis nesaf.  Diolch am dy holl waith hefo CCPistyll a edrych ymlaen gweld chdi nol y cyfarfodydd mis Tachwedd. |
| **10.** | **Cyfarfod Nesaf**<br>Nos Fawrth 14ain o Hydref 2025 am 7yh yn y Ganolfan Llithfaen |